# IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET

## (Microsft Teams Meeting/ Hybrid Meeting in Council Chamber)

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Mawrth, 4 Hydref 2022</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.James** |
| **Cynghorwyr**: | R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac C.Phillips |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, J.Woodman-Ralph, H.Jones, C.Owen, R.Headon a/ac J.Stevens |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr S.K.Hunt, S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn |

---

1. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

2. **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>**

<u>Adroddiad Blynyddol 2021-2022 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024</u>

Derbyniodd yr aelodau Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2021-2022 i'w ystyried cyn ei gyhoeddi yn unol â gofynion statudol, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Holodd yr Aelodau am ganlyniad y tri Archwiliad Mewnol a gwblhawyd mewn perthynas â'r Asesiadau Effaith Integredig. Gofynnwyd pa hyfforddiant oedd yn mynd i gael ei ddarparu, beth oedd y materion blaenorol gydag asesiadau effaith integredig a oedd wedi arwain at hyfforddiant pellach ac a fyddai angen hyfforddiant ar aelodau. Eglurodd swyddogion fod hyfforddiant wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i swyddogion yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf ac y byddai aelodau'n derbyn hyfforddiant yn eu rôl benodol o fewn

asesiadau effaith integredig. Nodwyd mai’r pryder yn bennaf oedd cwblhau Asesiadau Effaith Integredig mewn modd amserol.

Tynnodd y pwyllgor sylw at yr wybodaeth gan Estyn mewn perthynas ag Aflonyddu Rhywiol mewn Ysgolion. Roedd yr aelodau'n deall bod y cwricwlwm ar gyfer ysgolion cynradd yn ymdrin â'r pwnc hwn mewn sesiynau hyfforddi. Fodd bynnag, nododd yr aelodau fod y pryder o ran cydraddoldeb a blaengynllunio mewn perthynas â'r ysgolion uwchradd. Gofynnodd y Pwyllgor felly i’r Cadeirydd Addysg, Sgiliau a Lles sicrhau bod y Pwyllgor yn ystyried sut yr eir i'r afael â'r mater hwn mewn ysgolion uwchradd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2022

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2021-2022 i'r Aelodau, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Trafodwyd bod bwriad o fewn y strategaeth i gynhyrchu rhestr o eiriau/ymadroddion i'w defnyddio mewn cyfarfodydd gan y di-Gymraeg i annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd/ymadroddion. Fodd bynnag, teimlwyd bod hyn wedi datblygu’n organig dros amser, gan leihau’r angen uniongyrchol am restr ‘swyddogol’. Nodwyd y byddai hyn yn ddefnyddiol i aelodau a gofynnwyd i restr gael ei chynhyrchu a'i nodi yn nodiadau briffio'r Cadeirydd.

Awgrymodd yr aelodau, wrth adolygu'r strategaeth sydd i ddod, y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng rolau a chyfrifoldebau o fewn yr awdurdod a chyda'r partneriaid.

Trafodwyd amserlen adrodd y Strategaeth. Nodwyd nad oes unrhyw beth wedi'i nodi yn Safonau’r Gymraeg o ran y cyfnodau adrodd, maen nhw ond yn datgan bod cynllun strategol 5 mlynedd i’w gynhyrchu a’i gyhoeddi. Fodd bynnag, mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi blaenoriaethu darparu adroddiadau blynyddol sy'n cyd-fynd â therfynau amser corfforaethol eraill.

Holodd yr aelodau ynghylch pwynt 1.2.3 'Ystyried effeithiau datblygiadau tai newydd ar dwf addysg Gymraeg neu'r effaith ar gymunedau lle siaredir Cymraeg', yn y strategaeth gan holi ynghylch

y cynnydd. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai angen iddynt drafod â'r swyddog perthnasol a darparu ymateb y tu allan i'r cyfarfod.

Holwyd hefyd ynghylch pwynt 3.1.6 'Sicrhau bod y gostyngiad yng nghanran siaradwyr Cymraeg yng Nghwm Tawe yn gyfyngedig, gyda chynllun gweithredu wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer yr ardal a gweithio ochr yn ochr â Thŷ'r Gwrhyd i effeithio'n strategol ar yr ardal.' Nodwyd mai ychydig o gynnydd a wnaed ar hyn a gofynnwyd beth oedd y rhesymeg dros yr ychydig gynnydd a wnaed. Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn casglu ymateb gan y Fforwm Iaith sy'n gyfrifol am hynny. Byddai'r ymateb yn cael ei gylchredeg i'r pwyllgor.

Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r aelodau'n cael cyfle i ail-edrych ar y strategaeth gan y byddai cyfnod adolygu.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

## 4. EITEM FRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag